Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Steve Bell |
| **Rôl / Role:** | Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Steve.Bell@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 21/08/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Safonau proffesiynol ar gyfer AB a dysgu yn y gwaith |


### Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cynnal ymweliadau cyswllt rheolaidd â darparwyr dysgu yn y gwaith a cholegau addysg bellach. Mae ymweliadau diweddar wedi cynnwys cwestiynau penodol yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r safonau proffesiynol. Yn ein harolygiadau craidd, rydym ni'n ystyried pa mor effeithiol y mae darparwyr yn cefnogi dysgu proffesiynol eu staff. Rydym ni'n rhoi sylwadau ar ddefnyddio'r safonau proffesiynol a'r dysgu proffesiynol yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf (Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019, tud. 62).

Mae'r safonau proffesiynol yn cydnabod yn briodol nod 'proffesiynoldeb deuol' yn rôl ymarferwyr yn y sectorau ôl-16, fel arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr galwedigaethol, yn ogystal ag arbenigwyr mewn addysgu, dysgu ac asesu.

Mae'r safonau proffesiynol yn fuddiol i staff addysg bellach a dysgu yn y gwaith o ran cydnabod y medrau sydd eu hangen i fod yn athro, yn hyfforddwr neu'n asesydd effeithiol.

Mae bron pob un o'r darparwyr yn ymwybodol o'r safonau proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi adolygu'r safonau proffesiynol ac yn dechrau eu hymgorffori yn eu polisïau a'u harferion dysgu proffesiynol, er enghraifft trwy gysylltu diwrnodau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff â themâu yn y safonau. Er bod bron pob un o'r darparwyr yn ymwybodol o'r safonau, mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr unigol yn dangos amrywiad yn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth.

Ar hyn o bryd, caiff defnydd o'r safonau ei rwystro gan y diffyg deunydd atodol sydd ar gael i helpu darparwyr i ddehongli'r safonau neu eu defnyddio wrth ddatblygu arfer.

Rydym ni'n cefnogi cynigion yr ymgynghoriad hwn ar gyfer datblygu offer, adnoddau ac astudiaethau achos ychwanegol i helpu darparwyr i ddehongli a defnyddio'r safonau yn fwy effeithiol a chyson.

Rydym ni'n cefnogi datblygu, enghreifftio neu addasu'r safonau i'w defnyddio gydag ystod ehangach o weithwyr addysg proffesiynol yn y sector ôl-16, fel staff cymorth addysgu.

Rydym ni'n ystyried bod datblygu fframwaith cymwysterau, yn seiliedig ar y safonau, yn gam nesaf pwysig. Bydd angen i fframwaith ystyried hyfforddiant a chymwysterau cychwynnol, yn ogystal â dilyniant gyrfa ar gyfer ymarferwyr yn y sectorau ôl-16, ac ystyried ystod eang cymwysterau a phrofiad blaenorol y rhai sy'n dechrau yn y proffesiwn mewn sectorau ôl-16. Dylai unrhyw gyfres o gymwysterau ystyried yn ofalus yr angen i nodi gofynion mynediad priodol sy'n gweddu i anghenion a gofynion y rolau amrywiol y mae ymarferwyr ôl-16 yn ymgymryd â nhw. Dylid cymryd gofal arbennig i osgoi gorfodi gofynion mynediad sy'n cyflwyno rhwystrau gormodol rhag mynediad.

Ar hyn o bryd, nid yw ymarferwyr sydd â chymwysterau addysgu penodol ôl-16 yn unig yn meddu ar statws athro cymwysedig (SAC) ac, felly, ni ellir symud i swyddi addysgu mewn ysgolion heb hyfforddiant ac achrediad ychwanegol. Nid yw'r un peth yn berthnasol i athrawon sydd â chymhwyster addysgu cyn-16 sy'n dymuno gweithio mewn darparwyr ôl-16. Gall hyn fod yn rhwystr rhag symud staff yn fuddiol rhwng y ddau sector, a gallent fod yn ffactor cyfyngol o ran cydweithio i ddatblygu ehangder yr opsiynau ar gyfer dysgwyr mewn darpariaeth ôl-14. Byddem yn annog datblygu cyfres o gymwysterau hyfforddi athrawon sy'n darparu'r hyblygrwydd i addysgu ar draws sectorau, gan gynnwys yr opsiwn i gyflawni SAC trwy raglenni sydd wedi eu cynllunio i hyfforddi athrawon sydd wedi eu harfogi i addysgu mewn sectorau addysg uwchradd ac addysg bellach fel ei gilydd.

Hefyd, dylai fframwaith cymwysterau yn seiliedig ar y safonau ystyried y fframweithiau cymwysterau addysgu yng ngwledydd cartref eraill y DU, a thu hwnt, i sicrhau bod cymwysterau yn seiliedig ar y safonau yn cael eu cydnabod yn briodol, ac yn ddilys i'w defnyddio y tu allan i Gymru.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**1. Eich cefndir chi**

| | |
|---|---|
| Enw | Steve Bell |
| Sefydliad | Estyn |
| Teitl eich swydd | Arolygydd Ei Mawrhydi |

**2. Faint o gymorth yw Safonau Proffesiynol Llywodraeth Cymru yn eich barn chi ar gyfer athrawon AB a ymarferwyr DSW (2017) o ran:**

| | Ddim yn berthnasol | Ddim o gymorth o gwbl | O ychydig o gymorth | O rywfaint o gymorth | O gymorth cymedrol | O gymorth mawr iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparu disgwyliadau clir a fframwaith ar gyfer arfer a dilyniant effeithiol, gydol gyrfa | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ | ☐ |
| Darparu teclyn meincnodi er mwyn cynllunio gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Darparu ffocws ar gyfer deialog broffesiynol rhwng rheolwyr a staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Darparu cefndir ar gyfer rheoli perfformiad | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Recriwtio staff newydd / ysgrifennu swydd-ddisgrifiadau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Llunio prosesau sefydlu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Llywio datblygiad y cwricwlwm | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Helpu i sicrhau safonau dysgu ac addysgu cyson ar draws yr holl staff, adrannau a darparwyr dysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ | ☐ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparu teclyn i lywio datblygiad strategaethau sefydliadol i wella dysgu ac addysgu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Llywio datblygiad sefydliadol a darparu egwyddorion craidd ar gyfer sefydlu a rhedeg gwasanaethau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

3. **Faint o gymorth yw'r Safonau Proffesiynol yn eich barn chi o ran helpu athrawon AB ac ymarferwyr DSW i:**

| | **Ddim yn berthnasol** | **Ddim o gymorth o gwbl** | **O ychydig o gymorth** | **O rywfaint o gymorth** | **O gymorth cymedrol** | **O gymorth mawr iawn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adfyfyrio'n gritigol ar eu harfer | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Adnabod a chynllunio'u dysgu a'u datblygiad proffesiynol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |
| Cael deialog broffesiynol gyda chydweithwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Ymgymryd ag ymchwil ac ymholiad proffesiynol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ | ☐ |

4. **A oes unrhyw elfennau penodol i'r Safonau Proffesiynol y mae angen eu diwygio er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol, ymarferol a chynorthwyol? Os oes, amlinellwch y rhain isod.**

Oes ☐

Nac oes ✓

Ddim yn gwybod ☐

Mae’r rhagymadrodd i’r safonau yn cydnabod yn briodol gysyniad proffesiynoldeb deuol, ac mae’n amlinellu’n dda yr egwyddorion sy’n sail i’r safonau.

Mae’r safonau eu hunain yn cynrychioli ystod synhwyrol a hylaw o ymrwymiadau personol, sy’n ddefnyddiol i ddarparwyr ac ymarferwyr unigol.  Maent yn cwmpasu elfennau allweddol gwaith ymarferwyr ôl-16 yn briodol.

Maent wedi eu geirio’n ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer datblygiadau a newidiadau mewn arfer yn y dyfodol, er enghraifft wrth ymateb i fodelau cyflwyno cyfnewidiol ar ôl pandemig y coronafeirws.

5. **A oes unrhyw bethau sylweddol sydd wedi'u hepgor o'r Safonau Proffesiynol presennol? Os oes, amlinellwch y rhain isod.**

| | |
|---|---|
| Oes | ☐ |
| Nac oes | ✓ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

Mae'r safonau eu hunain yn addas at eu diben. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu ystod o ddeunyddiau cymorth, fel enghreifftio, a fframweithiau ar gyfer dilyniant a chymhwyster. Byddai hyn yn dileu un o'r rhwystrau rhag gwneud defnydd mwy cyffredinol o'r safonau.

6. **A fyddai o gymorth petai Safonau Proffesiynol ychwanegol ar gyfer y camau penodol canlynol mewn gyrfa ym maes AB a DSW yn cael eu datblygu?**

| | **Ddim o gymorth o gwbl** | **O ychydig o gymorth** | **O rywfaint o gymorth** | **O gymorth cymedrol** | **O gymorth mawr iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon AB ac ymarferwyr DSW dan hyfforddiant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Athrawon AB ac ymarferwyr DSW sydd newydd gofrestru | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Athrawon AB ac ymarferwyr DSW profiadol | ☐ | ✓ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y rhai mewn rolau arweinyddiaeth mewn AB a DSW | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |
| Gweithwyr cymorth dysgu AB | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ✓ |

**7. A oes gan eich sefydliad ei declynnau/adnoddau pwrpasol ei hun i gynorthwyo ymarferwyr AB a DSW i ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol? Er enghraifft, gallai hyn fod yn fframwaith sy'n nodi'r sgiliau a'r ymddygiad a ddisgwylir gan ymarferwyr. Os 'oes' rhowch fanylion.**

Oes ✓

Nac oes ☐

Ddim yn gwybod ☐

Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i Estyn yn uniongyrchol, er bod ein dogfennau arweiniad arolygu yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr ac athrawon sy'n hyfforddi fel arolygwyr cymheiriaid ac yn ymuno â thimau arolygu. Mae gennym ni astudiaethau achos arfer effeithiol ar ein gwefan hefyd a allai fod yn ddefnyddiol, yn enwedig lle mae'r rhain yn cyfeirio at ddysgu proffesiynol.

O'n hymweliadau cyswllt â cholegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith, mae gan bron bob un ohonynt ddealltwriaeth briodol o'r safonau, ac mae llawer wedi eu hymgorffori mewn rhyw ffurf yn eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain. Dywed darparwyr fod y safonau'n synhwyrol a'u bod yn fan cychwyn defnyddiol at ystod o ddibenion, fel arfer fyfyriol broffesiynol, arfarnu a gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Yn benodol, mae gan ddarparwyr eisoes eu fframweithiau addysgu a dysgu eu hunain y maent wedi eu mapio yn unol â'r safonau, ond lleiafrif o'r rhain yn unig sy'n defnyddio'r safonau yn uniongyrchol. Yn aml, mae darparwyr yn sôn am y diffyg cymhwyster neu fframwaith dilyniant cysylltiedig fel y rheswm pam nad ydynt yn defnyddio'r safonau yn uniongyrchol.

**8. Isod mae rhestr o declynnau ac adnoddau y gellid eu datblygu i helpu sefydliadau ac ymarferwyr AB a DSW i ymgysylltu â'r Safonau Proffesiynol. Nodwch (drwy ddethol) bob un o'r rhai a allai fod o gymorth yn eich barn chi:**

| | **Ticiwch os byddai o gymorth** |
|---|---|
| Canllaw 'sut i...' sy'n darparu cyngor ynghylch ymgysylltu â'r safonau a sut i'w defnyddio ar gyfer datblygiad gyrfaol | ✓ |
| Astudiaethau achos sy'n dangos sut caiff y safonau eu cymhwyso'n ymarferol | ✓ |
| Teclyn rhyngweithiol sy'n dangos sut mae'r safonau'n berthnasol ym mhob cam o yrfa ymarferydd ac sy'n darparu enghreifftiau ymarferol | ✓ |
| Teclyn rhyngweithiol sy'n helpu ymarferwyr i fapio'u sgiliau, eu profiad a'u dysgu proffesiynol yn ôl y safonau proffesiynol | ✓ |
| Teclyn hunanasesu sy'n caniatáu i ymarferwyr fesur eu cynnydd yn unol â'r safonau | ✓ |

| | |
|---|---|
| Templedi ar gyfer swydd-ddisgrifiadau | ✓ |
| Templedi ar gyfer adolygiadau perfformiad | ✓ |
| Arall (nodwch) | ☐ |

**9. Defnyddiwch y gofod isod i ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud am y Safonau Proffesiynol.**

Sylw ar Gwestiwn 2 – Rydym ni wedi tybio bod 'Llywio datblygu'r cwricwlwm' yma yn golygu datblygu'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr, yn hytrach nag ar gyfer datblygu ymarferwyr (e.e. hyfforddiant cychwynnol i athrawon neu HMS). Os yw, mewn gwirionedd, yn cyfeirio at ddatblygu ymarferwyr, ein hymateb fyddai 'O gymorth cymedrol'.

Sylw ar Gwestiwn 6 – Rydym ni wedi ymateb i nodi y byddai safonau proffesiynol yn fuddiol ar gyfer pob un o'r categorïau a restrir. Fodd bynnag, rydym ni'n cynghori y dylid bod yn ofalus os yw hyn yn arwain at ddatblygu safonau ar wahân neu ddigyswllt ar gyfer pob categori. Byddai hyn yn creu casgliad dryslyd a chymhleth diangen o safonau a allai fod â chanlyniadau negyddol. Er enghraifft, gallai hefyd atal ymddygiadau arweinyddiaeth ym mhob un o'r staff, os gwelir bod y rhain yn nodwedd yn unig o safonau proffesiynol ar gyfer arweinwyr. Gallai datblygu dogfennau cymhwyso neu ddogfennau enghreifftiol fod yn ddull mwy cydlynus, yn seiliedig ar y safonau presennol, ble bynnag y bo modd, sy'n amlinellu'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer y gwahanol grwpiau a nodwyd. Byddem yn cefnogi datblygu safonau penodol ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu.

Rydym ni wedi ymateb 'O rywfaint o gymorth' i'r categori Athrawon AB ac Ymarferwyr Dysgu yn y Gwaith profiadol, gan fod y safonau presennol yn fwyaf perthnasol i'r grŵp hwn, ac felly nhw sydd â'r angen lleiaf am ddatblygiad ychwanegol.

Sylwadau cyffredinol:

Rydym ni'n ystyried bod datblygu fframwaith cymwysterau, yn seiliedig ar y safonau, yn gam nesaf pwysig. Bydd angen i fframwaith ystyried hyfforddiant a chymwysterau cychwynnol, yn ogystal â dilyniant gyrfa ar gyfer ymarferwyr yn y sectorau ôl-16, ac ystyried ystod eang cymwysterau a phrofiad blaenorol pobl sy'n dechrau yn y proffesiwn mewn sectorau ôl-16.

Ar hyn o bryd, nid yw ymarferwyr sydd â chymwysterau addysgu ôl-16 penodol yn unig yn meddu ar statws athro cymwys (SAC), ac ni allant symud yn hawdd i swyddi addysgu mewn ysgolion. Nid yw'r un peth yn berthnasol i athrawon sydd â chymhwyster addysgu cyn-16 sy'n dymuno gweithio mewn darparwyr ôl-16. Gall hyn fod yn rhwystr rhag symud staff yn fuddiol rhwng y ddau sector, a gallent fod yn ffactor cyfyngol o ran cydweithio i ddatblygu ehangder yr opsiynau ar gyfer dysgwyr mewn darpariaeth ôl-14. Byddem yn annog datblygu cyfres o gymwysterau hyfforddi athrawon sy'n darparu'r hyblygrwydd i addysgu ar draws

sectorau, gan gynnwys yr opsiwn i gyflawni SAC trwy raglenni sydd wedi eu cynllunio i hyfforddi athrawon sydd wedi eu harfogi i addysgu mewn sectorau addysg uwchradd ac addysg bellach fel ei gilydd.

Hefyd, dylai fframwaith cymwysterau yn seiliedig ar y safonau ystyried y fframweithiau cymwysterau addysgu yng ngwledydd cartref eraill y DU, a thu hwnt, i sicrhau bod cymwysterau yn seiliedig ar y safonau yn cael eu cydnabod yn briodol, ac yn ddilys i'w defnyddio y tu allan i Gymru.

Trwy ein gwaith, gallai Estyn o bosibl gyfrannu at gasglu astudiaethau achos arfer.